CYHOEDDIAD

# Cylchlythyr demograffeg Ystadegau Cymru: Medi 2023

Cylchlythyr Medi 2023 ar gyfer defnyddwyr ystadegau Cymru ar yr ystadegau diweddaraf am boblogaeth, mudo, cartrefi a'r Gymraeg.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 22 Awst 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 22 Awst 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Ymgynghoriad ar ddyfodol ystadegau ar y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr**

**Ystadegau'r Gymraeg**

**Manylion cyswllt**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Ymgynghoriad ar ddyfodol ystadegau ar y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr

Ar 29 Mehefin, lansiodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ymgynghoriad cyhoeddus ar **ddull newydd o ymdrin ag ystadegau ar y boblogaeth a mudo (SYG)** (Saesneg yn unig). Mae eich mewnbwn yn dystiolaeth hanfodol ar gyfer argymhellion yr Ystadegydd Gwladol i'r llywodraeth ar ddyfodol ystadegau ar y boblogaeth a mudo, a'r cyfrifiad.

Rydym yn eich annog i ymateb i'r ymgynghoriad ac anfon y ddolen berthnasol ymlaen at unrhyw un arall allai fod â diddordeb.

Mae'r holiadur yn hawdd i'w gwblhau ac mae ar gael yn Gymraeg (**Ymgynghoriad ar ddyfodol ystadegau ar y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr (SYG)**) ac yn Saesneg (**Consultation on the future of population and migration statistics in England and Wales (SYG)**). Os oes angen help arnoch i gwblhau eich ymateb, gallwch **anfon e-bost i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol** neu gysylltu â nhw ar 01329 444972.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi creu **fideo wedi'i animeiddio sydd ar gael yn Gymraeg** neu yn Saesneg (**Transforming the way we produce statistics (SYG)**) er mwyn i bobl ddysgu mwy am y rhesymau pam maen nhw'n trawsnewid y ffordd y maen nhw'n cynhyrchu ystadegau. Mae **pennod ddiweddaraf 'Statistically Speaking', podlediad y Swyddfa Ystadegau Gwladol**, hefyd yn ystyried y ffordd y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi bod yn gweithio i drawsnewid sut maen nhw'n cyfrif y boblogaeth, gan ddefnyddio setiau data newydd i fesur yn fwy cywir, amserol ac yn fanylach. Mae'r podlediad hefyd yn rhoi sylw i'r ymgynghoriad.

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ddydd Iau 26 Hydref.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Rhagor o wybodaeth

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi rhyddhau cyfres gynhwysfawr o ymchwil. Mae'r ymchwil hon yn rhoi tystiolaeth i'r defnyddwyr o'r cynnydd maent wedi'i wneud tuag at ddatblygu system newydd i gynhyrchu ystadegau amserol, o ansawdd uchel ar y boblogaeth, gyda data gweinyddol yn greiddiol i'r system honno.

Ymhlith y gyfres hon o dystiolaeth, mae:

- **Astudiaethau achos (SYG)** (Saesneg yn unig), sy'n arddangos enghreifftiau 'bywyd go iawn' o ba dystiolaeth y gallai defnyddwyr gael gafael arni drwy system wedi'i thrawsnewid, sydd ar gael ar gyfer Cymru a Lloegr a phum awdurdod lleol
- **Trosolwg cryno o'r ymchwil ddiweddaraf (SYG)** (Saesneg yn unig), sy'n amlinellu asesiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r dystiolaeth yn erbyn y meini prawf a fydd yn helpu defnyddwyr i ymateb i'r ymgynghoriad
- Asesiad o'r cynnydd hyd yma a datblygiadau'r dyfodol i gynhyrchu ystadegau ar **nodweddion y boblogaeth yn y system newydd (SYG)** (Saesneg yn unig)
- **Amcangyfrifon poblogaeth sy'n seiliedig ar wybodaeth weinyddol ar gyfer canol 2022 (SYG)** (Saesneg yn unig), sy'n fwy amserol ac sy'n gallu cynnal lefel well o ansawdd dros amser nag amcangyfrifon sy'n seiliedig ar y Cyfrifiad, a'r **datblygiadau diweddaraf o ran methodoleg (SYG)** (Saesneg yn unig)
- **Ymchwil ar is-grwpiau o'r boblogaeth, gan gynnwys cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog** a ffoaduriaid (**Deilliannau integreiddio cynnar ar gyfer ffoaduriaid a ailgartrefwyd yng Nghymru a Lloegr: 2015 i 2021 (SYG)**) (Saesneg yn unig) (gyda'r dulliau) (**Canlyniadau peilot cysylltu data integreiddio ffoaduriaid: diweddariad methodoleg cysylltu Cyfrifiad 2021 (SYG)**) (Saesneg yn unig)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- **Diweddariad ar gynnydd ymchwil y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddatblygu data ar incwm y gellir eu hintegreiddio gyda Chyfrifiad 2021** (Saesneg yn unig), fel y nodir ym Mhapur Gwyn Cyfrifiad 2021
- Tystiolaeth fanwl ar **ddulliau y Swyddfa Ystadegau Gwladol** a'u **strategaeth ansawdd (SYG)** (Saesneg yn unig)

Mae'r erthyglau canlynol sydd hefyd yn llunio rhan o'r sylfaen dystiolaeth wedi cael eu cyhoeddi:

- Ymchwil iechyd - **Cymharu data hunangofnodedig ar afiachedd â chofnodion iechyd electronig, Lloegr (SYG)** (Saesneg yn unig)
- Ymchwil teithio i'r gwaith - **Amcangyfrif matricsau teithio i'r gwaith (Data Science Campus)** (Saesneg yn unig)

Mae blog hefyd wedi'i ryddhau ar y pwnc **Meithrin hyder yn ein gallu i symud i system newydd ar gyfer ystadegau'r boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol** (Saesneg yn unig).

# Ystadegau'r Gymraeg

I gael gwybodaeth am ystadegau'r Gymraeg, gweler **diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru**.

# Manylion cyswllt

## Martin Parry

Rhif ffôn: 0300 025 0373

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

E-bost: **ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru**

## Cyfryngau

Rhif ffôn: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.